

Deil Atgofion y Gorffennol i Hybu Gweithredoedd Presennol

Ar ddiwedd hanner cyntaf 2002, a minnau ar fy ail flwyddyn a phedwar ugain, buddiol yw eistedd yn ôl a meddwl am uchelfannau profiadau hyd yn hyn eleni (soniais am Sempriamham eisoes).


Ym mis Chwefror, bwrw penwythnos efo ffrindiau yn 'Oasis', sef gweryll yn y goedwig ger Penrith, Cumbria. Nid damweiniol, gyda llaw, yw'r tebygrwydd rhwng enw'r lle ac enw Penarth, Cambria, bro fy mebyd! Ymlacio'n ddioglyd oedd yr hanes mewn coedwig yn oerni Chwefror, ond esmwytho yn ystod ychydig o nosweithau yn Penrith wedyn wrth ymweld â ffrindiau yn Windermere, a mentro i'r 'Atyniad Mawr' sef 'Rheged', o dan dwmpath. Nid oedd sôn am yr hen Gymry a'u hiaith ond digon difyr oedd yr arddangosfeydd a'r ffilm ar chwedloniaeth Arthuraidd ei naws, sydd o leiaf yn cydnabod bod yna wlad yn annibynnol a'r Lloegr Seisnig yno ar un adeg.

Mwynheais fy ymweliad blynyddol â Phlas Tanybwllch i gefnogi'r 'Penwythnos Cymraeg' yn enwedig gan mai Môn a'i henwogion oedd y pwnc eleni, er bod hynny'n golygu y byddwn yn croesi'n ôl dros y bont ar ddydd Sadwrn. Ond yr oedd pethau newydd i'w clywed yn Amgueddfa Porth Amlwch ac yn Eglwys Eilian a bwthyn Porth Swtan. Cawsom ddarlithiau difyr yn y Plas gan y Parchedigion Harri Parri a Huw Jones ar 'Elen Roger Jones' ac ar 'Iaith Amaethyddiaeth Môn', a dadansoddiad o'r gerdd 'Rothsay Castle' gan Mona Williams.

Yng ngwesty Porthmeirion yr oeddwn wedyn i ddathlu parhad cylchgrawn 'Cymdeithas Bob Owen', sef *Y Casglwr*. Anffafriol oedd y tywydd i droedio'r pentref ond diddorol iawn oedd y sgwrs am hanes a chymeriad Bob Owen, ac, ar ôl cinio, sgwrs arall gan Hywel Teifi Edwards yn cynnig ei sylwadau ar ddydd annibynnol, herfeiddiol, annefodol arall, sef yr hen 'gowboi' Owen Roscomyl (Lifftenant Cynol A. O. H. Vaughan). March-filwr ac arweinydd y 'Welsh Horse' yn y Rhyfel Byd Cyntaf, catrawd y bu rhaid iddynt fynd i Ffrainc heb eu ceffylau - gormod o Gymro oedd hwn i'r cadfridigion Seisnig! Y fo oedd awdur *Flame Bearers of Welsh History*. Hanes ein cewri milwrol a ysbrydolodd yr Hywel Teifi ifanc. (Beth sy'n ysbrydoli bechgyn Cymru heddiw? Cewri timau pêl-droed Lloegr, mi gredaf!)

Yr achlysur mwyaf cyffrous yn ystod y chwe mis oedd mynd ar y trên i Harwich am noson cyn cychwyn ar y llong *Dan Angha* i Esbjerg, Denmarc, ac yn ôl i Harwich am noson arall cyn dod adref. Pethau diddorol yn Harwich oedd y Goleudai uchel ac isel ar y lan, wedi eu haddasu i fod yn amgueddfeydd morwrol a radio, hen gysylltiadau Trinity House, y Tollty a'r Morlys (a'r cymeriad doniol Samuel Pepys) heb sôn am feistr y *Mayflower*. Er bod gwaith i rai yn Felixtowe dros y dŵr, braidd yn anghysbell yw'r ardal

COFEB Y CYFARWYDD



Cerflun Hans Christian Andersen mewn parc ger yr afon Odense yn Nenmarc. Mae eglwys Sant Cnut (Canut) yn y cefndir.

a lefel diweithdra yn uchel.

Ar y ffordd yn ôl piciais mewn cwch bach dros yr afon Stour i weld Amgueddfa HMS *Ganges* gynt, ar benrhyn Shotley, fy 'alma mater' am fis yn 1941, a sylwi nad oedd sôn am y Cymro, Edgar Evans o Fro Gŵyr, a fu farw efo Scott ger Pegwn y De. Yr oedd yntau wedi ei hyfforddi fel hogyn ar hen hwlc y *Ganges* yn Falmouth yn 1891, (anfonais ddefnydd i wneud pecyn amdano ar ôl dychwelyd). Ar ôl bod yn Shotley yr oeddwn, a hithau'n Sul, yn awyddus i fynd i gapel am awr cyn mynd i'r *Electric Theatre*, sef hen sinema a drefnir gan *Harwich Heritage Trust*, er mwyn gorffen diwrnod hapus ac atgofus. Gofyn mewn siop a chael ar ddeall gan y perchennog (o bryd tywyll) nad oedd capel yn y dref, dim ond eglwys (ar gau ar y pryd) a llu o dafarnadau! Bu rhaid i mi sleifio i mewn i un ohonynt i gael diod a chreision tatws er mwyn osgoi'r glaw am awr. Hefyd mynd o olw y cannoedd o faneri Sant Siôr yn cyhwfan i ddangos cefnogaeth i'r Frenhines a phêl-droedwyr Lloegr, ar geir a thai a siopau. Pitw mewn cymhariaeth yw cenedlaetholdeb y Cymry.

Pleser oedd y fordaith (dros nos) i Esbjerg ac yn ôl, a gwên ar yr haul ac ar wynebau'r Daniaid ar för a thir. Dim ond dwy noson yno yng ngwesty Ansgar ond cefais gyfle i fynd ar y trên i ynys arall i weld Odense. Dyma'r tro cyntaf i mi deithio i'r wlad, y tu allan i Gopenhagen, ers dyddiau cwrs yng Ngholeg Gwerinol Elsinor ar ôl y rhyfel - hoff Goleg Dr D. J. a Noelle Davies. Yn Odense mynd i lawr tua'r afon lle bu llong fy nhad wedi ei dal yn yr ia yn 1957, yna ymweld ag amgueddfa a thŷ Hans Christian Andersen. Y mae gennyf lyfr o'i straeon enwog o hyd, cyfrol a gyhoeddwyd ar ddechrau'r ganrif - anrheg gan fy mam tua 1930. Yn Saesneg yr oedd ond mi welais yn yr amgueddfa eu bod wedi eu cyfieithu i dros bedwar ugain o ieithoedd a'u lleoliad ar fap enfawr yn cynnwys Wrecsam yng Nghymru. Ar ôl dychwelyd cefais ar ddeall o'r Llyfrgell Genedlaethol bod detholiad o'r straeon wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg gan Hughes a'i Fab, Wrecsam (1929-31), Gwasg Gee (1922-72) a chan Wasg y Dref Wen a Gwasg Dwyfor (1980-90). Gobeithio nad yw'n

pobl ifanc yn colli blas ar y storiâu hyfryd, fel stori drist-ramantus y 'Fôr Forwyn Fach' y mae ei cherflun yn eistedd ar 'gromlech' yn y dŵr yng Nghopenhagen, yn fath o 'icon' i'r genedl.

Hoffwn ddychwelyd rywdro i weld mwy o Esbjerg a'i hatyniadau a mynd drosodd i Ynys Fano sydd a'i hanes mor debyg i hanes Môn yn oes y llongau hwyliâu. Ond gwel i mi ddysgu dipyn ar yr iaith, bu bron i mi fynd ar goll ar y trên yn ôl o Odense!

Prin grybwyll fy ymweliad efo 'Cymdeithas y 50+' o Foelfre i Landudno i glywed canu wrth y piano o hen ffeffrynau'r Sioeau mewn eglwys yno, a sgwrs efo Hynafieithwyr Môn ar

'Gofgolofnau'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'. Cofir hefyd gyfraniadau arbennig Robert Morris a Dewi Jones i raglen amrywiol Cymdeithas Hanes Bro Goronwy.

Gorffennais y chwe mis yng Nghaerdydd yn anrhydeddus, ac yn werthfawr, er i mi ddychwelyd nos Sadwrn yn teimlo fy oed ar ôl dioddef ysgrechian, rhegfeydd a rhuthriadau pobl ifanc ar y trên rhwng Caer a Rhyll - ein dinasyddion newydd mae'n debyg. Ofni wneuthum eu bod wedi diflannu efo fy mag dillad ond dim ond ei symud er mwyn eistedd a wnaethant.

Ond i droi at wyneb arall y Cymry, sef yr henoed llesg neu sâl a welais wrth ymweld â pherthnasau a ffrindiau yng Nghaerfaddon, Llanilltyd Fawr ac o gwmpas Caerdydd wrth fwrw pum noson o gwmpas Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, ger Ffordd Cyncoed, y ddwy noson olaf i ymuno â Chyfarfod Blynyddol yr Eglwys Annibynnol Cymraeg. Cyfeillgar a gweithgar oedd staff y sefydliad a chynnes y gyfeillach mysg encidiau hoff cytun yr Undeb. Cawsom ddarlith werthfawr ar Wilym Hiraethog, a chan Iddew ar y sefyllfa ym Mhalesteina.

Ar nos Wener euthum i Gapel Stryd Minny, un o'r saith capel o Gasnewydd i'r Barri, oedd wedi estyn croeso i'r Undeb. Er i mi gollu ambell ran oherwydd diffyg clyw, hyfryd ymdeimlo ag egni a gobaith capel a'i haelodaeth bron cymaint â holl gapeli'r Annibynwyr yn Lloegr.

Cyn dal y trên ddydd Sadwrn cefais ginio yn yr Owain Glyndŵr ar Sgwâr Sant Ioan - lle arall?!

WYNNE LEWIS

Ar Werth

Glamorgan County History, Cyfrol 3 a Chyrol 4.

Cynigion os gwelwch chi'n dda.

Cysyllter â Mr Haydn Thomas, 4 Ffordd Knoll, Y Fenni, Gwent NP7 7AN

Dros 120 o lyfrau a chylchgronau a argraffwyd ym Mhwlheli ers yr 1820au. (01559) 384 839.